# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWYDDEDU

**(trwy Microsoft Teams)**

| **<u>Yn bresennol:</u>** | **<u>4 Ebrill 2022</u>** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Y Cynghorydd D.Whitelock** |
| **Y Cynghorwyr:** | J.Miller, D.M.Peters, S.E.Freeguard, R.Mizen a J.Hale |
| **Swyddogion yn bresennol:** | P.Malough, M.Shaw a T.Davies |
| **Yn Cynrychioli Heddlu De Cymru:** | N Bailey |

---

1. **<u>Croeso a galw'r rhestr</u>**

   Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Suzanne Paddison bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

2. **<u>Datganiadau o fuddiannau</u>**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u>**

   **PENDERFYNWYD**: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 4 Hydref, 2022.

4. **<u>Mynediad i gyfarfodydd</u>**

   **PENDERFYNWYD:**Yn unol ag Adran 100A (4) a (5)

o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac 15 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

5. **Cais am Drwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - Achos 1**

Rhoddwyd trosolwg i'r aelodau o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd, a gofynnwyd iddynt ystyried a oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl ystyried yr adroddiad, a chlywed yr holl sylwadau, ac ystyried polisi trwyddedu tacsis y cyngor, GWRTHODWYD y cais ar y sail nad oedd yn bodloni Polisi Trwyddedu'r Awdurdod ac nad oedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno unrhyw resymau eithriadol ynghylch pam y dylai'r cyngor wyro oddi wrth ddarpariaethau ei bolisi tacsis.

6. **Eitemau brys**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.